CYNGOR CYMUNED PISTYLL
COFNODION CYFARFOD MISOL

DYDDIAD	**Nos Fawrth 8fed o Fedi 2026**
AMSER	**Cychwyn am 7y.h**
LLEOLIAD	**Y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH**
CADEIRYDD	**Wiliam Jones (Gadeirydd 2026-27)**

1.	**Croeso:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Wiliam Jones (Cadeirydd CC Pistyll) ac i aelod newydd, Bethan Thomas
2.	**Presennol:** Bethan Thomas (BT), Emlyn Williams (EW), Olwen Roberts (OR), Osian Williams (OW), Sianelen Pleming (SP) a Cynghorydd Jina Gwyrfai (GJ) **Ymddiheuriadau gan:** Gruff Jones (GJ) - ymddiswyddo, Rhian Edwards (RE) **Heb datgan ymddiheuriadau o flaen llaw at y cyfarfod:** Lois Fychan (LF) ***Canllaw Un Lais Cymru 'Y rheol chwe mis ar gyfer presenoldeb' - os yr aelod yn methu mynychu cyfarfod o fewn cyfnod o chwe mis, mae'r aelod hwnnw/honno yn peidio bod yn aelod o'r cyngor yn syth, oni bai fod y methiant oherwydd rhyw reswm a gymeradwywyd gan y cyngor cyn diwedd y cyfnod o chwe mis'.***
3.	**Datgan diddordeb:** Neb
4.	**Cyflwyno a mabwysiadu cofnodion o cyfarfod diwethaf – Sianelen Pleming (SP) ac Olwen Roberts (OR)**
5.	**Materion yn codi:** A) Diffib Llithfaen **Diweddariad:** Sioned wedi cysylltu ag Dewi Plas, ac mae manylion cyswllt I'r diffib wedi diweddaru. B) Maes Parcio y Ganolfan **Diweddariad:** Maes parcio yn cau 13 Medi ac bydd gwaith glanhau yn cael ei wneud cyn bydd yr llinellau parcio yn cael eu rhoi lawr. JG i cysylltu ag Tîm Tacluso Ni i ofyn am cael yr lori hefo brwsh yna i cwblhau y gwaith yn gynt. C) Lon Groes / Bwlch y Gwynt / Lon Rhosydd **Diweddariad:** Jina Gwyrfai (JG) yn trefnu i cael arwydd dim yn addas i HGV ar Lon Rhosydd drwy Cyngor Gwynedd. Lon Groes / Bwlch y Gwynt – JG wedi cysylltu ag CG sydd dweud dim gweithdrefn ganddynt i newid enw cymraeg i gymraeg. Angen ail cysylltu nol ag CG ar ol siarad am hyn hefo Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. D) HSBC – Leon o HSBC am trefnu i CCP gallu cael bancio ar lein. Clerc i cysylltu ag Cyfrifwr i gallu gwneud TAW **Diweddariad:** Wedi derbyn manylion cofrestru gan HSBC. E) Gor yrru yn Pistyll **Diweddariad:** OW wedi cael ymateb gan Liz Saville AS. JG mewn cysylltiad ac CG. Mae Cyngor Gwynedd yn ymwybodol ers blynyddoedd am yr lon yn roid o flaen Capel Pistyll. F) Sedd Gwag: **Diweddariad**: Mae Bethan Thomas (BT) wedi cael y sedd gwag ond mae sedd arall wedi dod i fyny hefo GJ yn ymddiswyddo. Clerc i rhoi hysbysiad allan drwy Cyngor Gwynedd ac tudalen Facebook Llithfaen.
6.	**Gwefan CC Pistyll:** Bod dim wedi diweddaru ar y wefan (GJ)
7.	**Diweddariad Cyllidol gan y Is Cadeirydd (WJ)** Cyfrifon Banc Cyngor Cymuned Pistyll: Cyfrif Elusennol: £14,506.09 a Cyfrif Cadw: £2,800.00 Taliadau mis Medi 201501 Clerc £315.53 201502 Cyngor Gwynedd – binau baw ci (2024-25) £377.21 201503 Awdit Cymru (23-24) £837.68 **Diweddariad Asedau:** • Ddifibrilwyr (2) – Un wedi'i leoli yn Llithfaen ac un yn Pistyll. CC Pistyll wedi ad-dalu cost y ddau fatri pad newydd. • Gysodfannau Bws (2) • Meinciau - Wedi'u lleoli yn Pistyll ac yn Llithfaen. • Maes Parcio – Ben Nant (rhan isaf) • Biniau Baw Ci (4) - 1 ym Mhistyll ac 3 yn Llithfaen. Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y bin sydd wedi'i leoli yn Nant. • Tir Comin – Hanner y mynydd. • Y Ganolfan – Mae Cyngor y Gymuned yn dal y les ar yr adeilad (99 mlynedd), tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd.
8.	**Pwyllgor y Ganolfan:** yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd (CCP wedi talu am les yr adeilad i CG am 99 mlynedd) Mae y problem dryrot wedi ehangu fwy nag oeddem yn meddwl. Ystafell snwcer cafodd y trinaeth hefo wal bellach yr ystafell gyfarfod hefo grant gwreiddiol AHNE ond mae y wal wrth yr gegin wedi cael ei difrodi (mae'r coed wedi cael eu llosgi) Siarad

	hefo Trefor Jones o'r Ganolfan hefo'r camau nesaf ar ol i CCP cyfranu £500 tuag at y gost. Bydd cyfarfod CCP yn cael ei gynnal yn Caffi tan bydd y gwaith yn cael ei gwblhau oherwydd iechyd a diogelwch
9.	**Unrhyw Fater Arall / Materion lleol:** **Maes Parcio ben Nant** **Diweddariad:** Adroddodd CCP sydd berchen ac ochr isaf yr maes parcio ar ben Nant, ac mae Nant Gwytheyrn hefo darn sydd wedi ychwanegu ochr uchaf. Nodwyd fod Bleddyn P. Jones (AHNE) wedi ymweld â'r maes parcio ac wedi cydnabod bod angen gwaith tacluso a gwell arwyddion ar y safle (rhan CCP). Dywedodd ei fod mewn egwyddor yn barod i ystyried gwneud cyfraniad tuag at y costau. Mynegodd hefyd ei siom na chysylltodd trefnwyr y digwyddiadau ras â'r Cyngor nac ychwaith gynnig cyfraniad tuag at ddefnydd y safle. Mae y maes parcio yn brysur hefo campervans ac digwyddiadau penwythnos ac mae JG am trefnu siarad hefo Nant ac AHNE. Oedd y sgwrs gwreiddiol o rhoi 'cattlegrid' ar y lon i atal defaid / geifr dod lawr i pentref pam Nant Gwytheyrn eisiau ehangu yr maes parcio blynyddoedd yn ol. Clerc i edrych fewn i prisiau 'cattlegrids' ayyb. **Cae Chwarae Pistyll / Bioamrywiaeth** **Diweddariad:** Clerc wedi bod yn llwyddiannus yn cae grant drwy Cronfa Gwynedd Ni i cael panel synhwyraidd a figet dwbl i cael chwarae Pistyll. Clerc wedi gofyn i OW am penderfyny y lle gorau I'w lleoli ar y cae chwarae. Angen diweddaru polisi Bioamrywiaeth CCP. **Teulu Gwynedd – Trelar Chwarae** JG yn gofyn i Clerc anfon neges o diolch i Teulu Gwynedd wnaeth trefnu y trelar chwarae dod i Llithfaen mis Awst. Bu yn llwyddiannus a prysur iawn hefo nifer o plant lleol ac tu allan I'r ardal dod iddo. Roedd CCP wedi rhannu y digwyddiad ar tudalen FB Llithfaen ac CCP.
10.	**Cyfarfod Nesaf:** Bydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, 13 o Hydref 2026, am 7yh yn y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH. ***Os ni fyd aelodau yn gallu mynychu angen gadael I'r Clerc neu aelod arall wybod i gallu rhoi ymddiheuriadau o flaen llaw.***